



Ministry
of Justice

Ymgynghoriad ar Wella'r Cod i Ddioddefwyr ac Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad 2019: Cynigion ar gyfer diwygio'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau

Mawrth 2020

CP 236



Ministry
of Justice

Ymgynghoriad ar Wella'r Cod i Ddiodefwyr ac Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad 2019: Cynigion ar gyfer diwygio'r Cod Ymarfer i Ddiodefwyr Troseddau

Cyflwynwyd i'r Senedd

gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Mawrth 2020



© **Hawlfraint y Goron 2020**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni ar Victims.Consultation@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-1785-7

CCS0220197850 03/20

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan y Grŵp APS ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Rhagair	7
Ymgynghoriad ar Wella'r Cod i Ddiodefwyr	9
Cyflwyniad	11
Ein Dull	12
1. Gwella'r Cod i Ddiodefwyr	13
2. Gwybodaeth	14
3. Asesiad Effaith a Datganiad Cydraddoldeb	16
4. Y Cod diwygiedig drafft	18
Cwestiynau	19
Amdanoch chi	20
Manylion cyswllt/ Sut i ymateb	21
Egwyddorion ymgynghori	23
YMATEB Y LLYWODRAETH I'R YMGYNGHORIAD: CYNIGION AR GYFER DIWYGIO'R COD YMARFER I DDIODDEFWYR TROSEDD	25
Cyflwyniad	27
Cefndir	28
Crynodeb o'r ymatebion	29
Ymatebion i gwestiynau penodol ar ein cynigion	30
Y Camau Nesaf	30
1. Gwybodaeth a Chyfathrebu - Hygyrchedd	31
2. Llais Dioddefwyr	36
3. Cymorth	40
4. Cymorth Arbenigol	41
5. Atebolrwydd	44
Casgliadau a'r camau nesaf	45
Rhestr o ymatebwyr	46

Rhagair



Gall bod yn ddiodefwyr trosedd newid eich bywyd, ac mae'r modd y caiff pobl eu trin o fewn y system cyfiawnder yn gallu gwneud gwahaniaeth enfawr i'w gallu i ymdopi ac adfer. Fel Gweinidog Dioddefwyr, credaf ei bod yn hanfodol bod diodefwyr yn cael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt, ond ni ddylai hyn fod ar draul cael eu trin â pharch a sensitifwydd.

Yn dilyn ymrwymiad a wnaed yn y Strategaeth Dioddefwyr trawslywodraethol gyntaf erioed, nododd ein ymgynghoriad cychwynol y llynedd yn glir ein gweledigaeth ar gyfer Cod i Ddiodefwyr (y Cod) a ddyluniwyd i adeiladu hyder diodefwyr ac ymddiriedaeth yn y system. Anelwyd yr ymgynghoriad at ymdrin â'r materion cymhlethdod a hygyrchedd yn y Cod presennol, diweddarau'r hawliau i gwrdd yn well ag anghenion diodefwyr, a sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg iawn. Mae ein cynigion diweddaraf yn ceisio adeiladu ar hyn drwy newid strwythur y Cod presennol fel ei fod yn dod yn set glir o hawliau, sy'n hawdd i ddiodefwyr ei deall ac sy'n nodi'r lefel isaf o wasanaeth y gallant ei ddisgwyl gan asiantaethau cyfiawnder troseddol.

Yn dilyn ymgysylltu rhanddeiliad helaeth â diodefwyr a grwpiau diodefwyr, canolbwyntiodd ein cynigion ar nifer o feysydd allweddol: codi ymwybyddiaeth a hygyrchedd; darparu gwybodaeth gliriach am hawliau diodefwyr i gael mynediad at gymorth ymarferol ac emosiynol; cryfhau cyfathrebu, a chymryd i ystyriaeth ddewisiadau'r diodefwyr; a chynyddu llais y diodefwyr drwy ddarparu mwy o hyblygrwydd yn y broses Datganiad Personol Dioddefwr.

Derbyniwyd cyfanswm o 231 o ymatebion i'n hymgynghoriad cyntaf, gan ystod o sefydliadau ac unigolion. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gymerodd yr amser i anfon eu barn atom a gallaf eich sicrhau ein bod wedi ystyried y sylwadau'n ofalus. Yn unol â'n rhwymedigaethau statudol, rydym yn awr yn ymgymryd â'r ail ymgynghoriad hwn, sy'n cynnwys fersiwn ddiwygiedig ddrafft o'r Cod.

Rydym yn edrych ymlaen at glywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud a mesur eich barn ar y newidiadau yr ydym yn eu cynnig. Rydym eisiau i'r Cod diwygiedig baratoi'r ffordd ar gyfer Cyfraith Dioddefwyr a fydd yn gwarantu hawliau i ddiodefwyr, yn ogystal â gosod allan yn glir y lefel o gymorth y dylai diodefwyr ei derbyn drwy'r broses cyfiawnder troseddol.

Alex Chalk

Is-ysgrifennydd Gwladol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder



Ministry
of Justice

Ymgynghoriad ar Wella'r Cod i Ddiodefwyr

Mae rhan gyntaf y ddogfen hon yn nodi ein cynigion a chwestiynau mewn perthynas â'n hail ymgynghoriad, "Gwella'r Cod i Ddiodefwyr". Mae'r ail ran yn nodi Ymateb y Llywodraeth i'n hymgyngoriad cyntaf, "Cynigion ar gyfer diwygio'r Cod Ymarfer i Ddiodefwyr Troseddau", a agorodd ar 17 Gorffennaf ac a ddaeth i ben ar 11 Medi 2019.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 5 Mawrth 2020

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 16 Ebrill 2020

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

- At:** Anelir yr ymgynghoriad hwn ar y cyhoedd, diodefwr troseddau, asiantaethau cyfiawnder troseddol, y farnwriaeth, y Comisiynydd Dioddefwr a Thystion, sefydliadau sy'n gweithio gyda ac yn cynrychioli diodefwr trosedd a phawb sydd â diddordeb yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr.
- Hyd:** O 5 Mawrth 2020 i 16 Ebrill 2020
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat gwahanol) i:** Ymgynghoriad Dioddefwr
Tîm Polisi Dioddefwr a Thystion
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
7fed Llawr, 102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 07540 272595
E-bost: Victims.Consultation@justice.gov.uk
- Sut i ymateb:** Os gwelwch yn dda ymatebwch erbyn 16 Ebrill 2020 gan ddefnyddio hwb ymgynghori ar-lein y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar: <https://consult.justice.gov.uk/>
Gallwch hefyd gyflwyno eich ymateb drwy e-bost i: Victims.Consultation@justice.gov.uk
neu ar ffurf copi caled i:
Ymgynghoriad Dioddefwr
Tîm Polisi Dioddefwr a Thystion
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
7fed Llawr, 102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
- Papur ymateb:** Mae ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020 ar: <https://consult.justice.gov.uk/>

Cyflwyniad

1. Mae'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau (y Cod) yn ddogfen statudol y Llywodraeth sy'n nodi'r lefel isaf o wasanaethau y dylai dioddefwyr troseddau ei chael gan asiantaethau cyfiawnder troseddol a sefydliadau eraill yng Nghymru a Lloegr. Mae'n galluogi dioddefwyr i gael y wybodaeth sydd ei hangen am eu hachos, y system cyfiawnder troseddol, a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael, fel y gallant lywio'r broses cyfiawnder a gwneud eu penderfyniadau ystyriol eu hunain am ba wasanaethau i gael mynediad atynt, a'r hyn y mae ganddynt hawl i'w ddisgwyl.
2. Daeth y Cod i rym yn 2006, ar ôl cael ei wneud yn ofynnol gan Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004. Mae'n adeiladu ar y gefnogaeth i ddioddefwyr o fewn Siarter y Dioddefwyr, a gyflwynwyd yn 1990 ac a oedd yn nodi am y tro cyntaf y lefelau gwasanaeth y dylai dioddefwyr troseddau eu disgwyl. Cafodd y Cod ei ddiweddarau yn 2013 ac eto yn 2015.
3. Yr ymgynghoriad hwn yw'r cam nesaf o ran gwella profiad dioddefwyr yn y system cyfiawnder, a bydd yn paratoi'r ffordd ar gyfer Cyfraith Dioddefwyr a fydd yn gwarantu eu hawliau i ddioddefwyr. Nawr, rydym yn awyddus i glywed yr hyn sydd gennych chi i'w ddweud am ein newidiadau arfaethedig.

Ein Dull

4. Derbyniwyd cyfanswm o 231 o ymatebion i'n hymgynghoriad cyntaf, a agorodd ar 17 Gorffennaf 2019 ac a ddaeth i ben ar 11 Medi 2019. Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd sylwadau ar gyflenwi un o'r ymrwymadau allweddol a gynhwysir yn y Strategaeth Dioddefwyr traws-lywodraethol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018 sef, i ymgynghori ar God Dioddefwyr diwygiedig.
5. Mae'r ymgynghoriad hwn yn adeiladu ar sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyntaf, sydd wedi cael dylanwad ac wedi ein galluogi i ganfod y newidiadau allweddol y credwn sydd angen i ni eu gwneud. Adlewyrchwyd y newidiadau hyn yn y fersiwn ddrafft o'r Cod diwygiedig, sydd yn Atodiad A, yn unol â'n rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf 2004.

1. Gwella'r Cod i Ddiodefwyr

- 1.1 **Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad:** Mae'r 'Cynigion ar gyfer diwygio'r Cod Ymarfer i'r Cod i Ddiodefwyr Troseddau' (Tudalen 19), yn nodi'r prif newidiadau yr ydym yn bwriadu eu gwneud i'r Cod. Mae cynigion pellach na chynhwyswyd yn yr ymgynghoriad cyntaf, a'n cwestiynau ar gyfer yr ail ymgynghoriad, yn cael eu cynnwys yn yr adran hon.
- 1.2 Roedd yr ymatebion i ymgynghoriad 2019 yn cadarnhau yr hyn yr oedd llawer o ddiodefwyr eisoes wedi ei ddweud wrthym am strwythur presennol y Cod - nid yw'n hawdd i'w ddefnyddio ac nid yw'n cynnwys gwybodaeth ymarferol i helpu eu tywys drwy'r broses cyfiawnder troseddol. Mae hefyd yn amlwg o'r sylwadau a gawsom fod y nifer fawr o hawliau yn y Cod, a strwythur y gwahanol benodau yn ei gwneud yn anodd iawn, yn enwedig i blant sy'n ddiodefwyr, i'w ddeall yn llawn a llywio drwyddo.
- 1.3 Wedi cymryd y sylwadau hyn i ystyriaeth, rydym wedi strwythuro Cod diwygiedig drafft (Atodiad A), fel ei fod yn canolbwyntio ar nifer llai o hawliau trosfwaol, ac rydym wedi uno'r gwahanol benodau'n un, er mwyn cyflenwi Cod byrrach a symlach. Bydd y dull hwn yn sicrhau ei bod yn haws i ddiodefwyr ac ymarferwyr ei ddeall, a bod yr hawliau a geir ynddo yn glir ac yn hawdd eu deall.

Cwestiynau:

- C1. Ydych chi'n meddwl mai ein cynnig i ailstrwythuro'r Cod yn 12 hawl drosfwaol yw'r un cywir? Rhwch resymau dros eich ateb.**
- C2. Ydych chi'n cytuno bod yr hawliau a nodwyd gennym yn ymdrin ag anghenion pwysicaf diodefwyr? Rhwch resymau dros eich ateb.**
- C3. Ydych chi'n cytuno bod yr hawliau hyn yn cynnwys y cyfnodau allweddol ar daith y diodefwyr yn y system cyfiawnder troseddol? Rhwch resymau dros eich ateb.**

2. Gwybodaeth

- 2.1 Mae'r Cod yn nodi'r gwasanaethau a'r safon ofynnol ar gyfer y gwasanaethau hyn y mae'n rhaid eu darparu i ddioddefwyr troseddau yng Nghymru a Lloegr. Gwyddom fod rhai teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth trwy lofruddiaeth neu ddynladdiad gwladolion Prydeinig a gyflawnwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn gallu ei chael yn anodd cael gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael. I'w cynorthwyo, ac am y tro cyntaf, rydym wedi cynnwys gwybodaeth yn y Cod diwygiedig drafft am y cymorth a ddarperir gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO).
- 2.2 Rydym hefyd wedi cynnwys gwybodaeth ymarferol ynghylch sut y gall dioddefwyr gael gafael ar wasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac arwydd-bostio lle gallant gael help a chynghor os daw'r cyfryngau i gyswllt â nhw.
- 2.3 Amlygodd papur ymgynghori 2019 nifer o newidiadau o fewn y system cyfiawnder troseddol sydd eisoes mewn grym ac rydym wedi cymryd y rhain i ystyriaeth yn y drafft Cod diwygiedig. Rydym hefyd wedi defnyddio ein hadolygiad i ystyried p'un a ddylid adlewyrchu prosesau neu gynlluniau cyfiawnder troseddol eraill, ac i'r perwyl hwnnw rydym wedi cynnwys esboniadau clir o'r swyddogaethau a gyflawnir gan yr Unedau Gofal Tystion a redir gan yr heddlu, yn ogystal â'r Gwasanaeth Tystion yn y llys.
- 2.4 Hefyd ychwanegwyd canllawiau ychwanegol at yr adran Datganiad Personol Dioddefwr (VPS) i gynorthwyo dioddefwyr wrth benderfynu p'un a ydynt yn dymuno gwneud Datganiad Personol Dioddefwr. Hefyd, am y tro cyntaf, rydym wedi cynnwys manylion am y Cynllun Dedfryd Gor-drugarog, a weinyddir gan Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol, ac wedi rhoi dyletswydd ar Unedau Gofal Tystion i wneud dioddefwyr yn ymwybodol o'r cynllun wrth roi gwybod iddynt am y ddedfryd.
- 2.5 Hefyd, dywedodd rhanddeiliaid wrthym y gall fod yn anodd weithiau i ddioddefwyr ddeall y broses pan fo Troseddwyr sy'n Wladolion Tramor yn cael eu hystyried ar gyfer alltudio. Felly, mae'r Cod diwygiedig drafft yn egluro rôl y Tîm Cymorth i Ddioddefwyr y Swyddfa Gartref. Rydym hefyd wedi cymryd y penderfyniad i gynnwys sut y gall dioddefwyr dderbyn gwybodaeth, naill ai trwy eu Swyddog Cyswllt Dioddefwyr os ydynt yn rhan o Gynllun Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, neu yn uniongyrchol gan Dîm Cymorth i Ddioddefwyr y Swyddfa Gartref.

Cwestiynau:

- C4. Rydym wedi cynnwys cyngor a gwybodaeth mwy ymarferol yn y Cod diwygiedig drafft, a gytunwch â'n dull arfaethedig? Rhowch resymau dros eich ateb.**
- C5. A oes unrhyw wybodaeth bwysig y teimlwch y dylem hefyd ei chynnwys?**

3. Aseiad Effaith a Datganiad Cydraddoldeb

- 3.1 Mae'r Aseiad Effaith a Datganiad Cydraddoldeb fel ei gilydd wedi cael eu diweddarau i ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid, ymatebion i ymgynghoriad 2019 ac effeithiau posibl ein cynigion.
- 3.2 Diben yr Aseiad Effaith yw adnabod y prif grwpiau yr effeithir arnynt gan ein cynigion i ddiwygio'r Cod a'r costau tebygol a manteision i'r grwpiau hynny. I grynhoi, mae'n dod i'r casgliad mai'r opsiwn a ffefrir yw gweithredu'r Cod diwygiedig, gan ei fod yn bodloni amcanion polisi ac yn sicrhau bod ymrwymiad y Llywodraeth yn cael ei fodloni.
- 3.3 Mae'r Datganiad Cydraddoldeb yn ystyried effeithiau posibl y cynigion yng nghydestun yr angen:
 - a) i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
 - b) i hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu "nodwedd warchoddedig" berthnasol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a phersonau nad ydynt yn ei rhannu; ac
 - c) i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.
- 3.4 Y nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf yw hil, rhyw, anabledd, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, oedran, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.
- 3.5 Rydym o'r farn nad yw ein newidiadau yn gwahaniaethu yn uniongyrchol o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb gan eu bod yr un mor berthnasol i bob diodefwyr. Ar ben hynny, rydym hefyd yn ystyried nad ydynt yn arwain at i bobl gael eu trin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchoddedig.

Cwestiynau:

- C6. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw dystiolaeth neu ffynonellau o wybodaeth a fyddai'n ein helpu i ddeall ac asesu cydraddoldeb ac effeithiau economaidd yn fwy manwl? Nodwch os gwelwch yn dda.**
- C6a. Os ydych yn ymwybodol, beth yn eich barn chi fyddai effaith y dystiolaeth/gwybodaeth hon ar ein cynigion?**

4. Y Cod diwygiedig drafft

- 4.1 Rydym yn credu y bydd y Cod diwygiedig drafft (Atodiad A) yn helpu dioddefwyr i ddeall y wybodaeth a'r gwasanaethau y dylent fod yn eu cael trwy ddarparu set glir o hawliau trosfwaol yn well. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ymarferol ynghylch sut y gall dioddefwyr gael mynediad at wasanaethau.

Cwestiwn:

C7. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach am y Cod diwygiedig drafft?

Cwestiynau

Gwella'r Cod i Ddiodefwyr:

1. Ydych chi'n meddwl mai ein cynnig i ailstrwythuro'r Cod yn 12 hawl drosfwaol yw'r un cywir? Rhowch resymau dros eich ateb.
2. Ydych chi'n cytuno bod yr hawliau a nodwyd gennym yn ymdrin ag anghenion pwysicaf y rhan fwyaf o ddiodefwyr? Rhowch resymau dros eich ateb.
3. Ydych chi'n cytuno bod yr hawliau hyn yn cynnwys y cyfnodau allweddol ar daith y diodefwyr yn y system cyfiawnder troseddol? Rhowch resymau dros eich ateb.

Gwybodaeth:

4. Rydym wedi cynnwys cyngor a gwybodaeth yn fwy ymarferol yn y Cod diwygiedig drafft, a gytunwch â'n dull arfaethedig? Rhowch resymau dros eich ateb.
5. A oes unrhyw wybodaeth bwysig eich bod yn teimlo y dylem hefyd ei chynnwys?

Asesiad Effaith a Datganiad Cydraddoldeb:

6. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw dystiolaeth neu ffynonellau o wybodaeth a fyddai'n ein helpu i ddeall ac asesu cydraddoldeb ac effeithiau economaidd yn fwy manwl? Nodwch os gwelwch yn dda.
- 6a. Os ydych yn ymwybodol, beth yn eich barn chi fyddai effaith y dystiolaeth/gwybodaeth hon ar ein cynigion?

Y Cod Diwygiedig Drafft

7. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar y Cod diwygiedig drafft?

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi eich hun

Enw llawn	
Teitl swydd neu yn rhinwedd pa swydd yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ayb.)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/ sefydliad (os yn berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yn wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, dywedwch wrthym beth yw enw'r grŵp a rhowch grynodedeb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

Manylion cyswllt/ Sut i ymateb

Os gwelwch yn dda, atebwch erbyn 16 Ebrill 2020 gan ddefnyddio hwb ymgynghori ar-lein y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar: <https://consult.justice.gov.uk/victim-policy/consultation-on-improving-the-victims-code>

Gallwch hefyd gyflwyno eich ymateb drwy e-bost i: Victims.Consultation@justice.gov.uk neu fel copi caled i:

Ymgynghoriad Dioddefwyr
Polisi Dioddefwyr a Thystion
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
7fed Llawr
102 Petty France
Llundain SW1H

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Copiau ychwanegol

Gellir gwneud cais am fformatau eraill o'r cyhoeddiad hwn gan Victims.Consultation@justice.gov.uk neu Ymgynghoriad Dioddefwyr, Polisi Dioddefwyr a Thystion, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 7fed Llawr, 102 Petty France, Llundain SW1H

Cyhoeddi'r ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ymhen tri mis. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein ar <https://consult.justice.gov.uk/>.

Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Cyfrinachedd

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA), Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych eisiau i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, ac sy'n delio, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os derbynnir cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu mewn datblygu polisi a deddfwriaeth yn cael eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>



Ministry
of Justice

YMATEB Y LLYWODRAETH I'R YMGYNGHORIAD: CYNIGION AR GYFER DIWYGIO'R COD YMARFER I DDIODDEFWYR TROSEDD

Ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad:
Cynigion ar gyfer diwygio'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau

Cyflwyniad

1. Y ddogfen hon yw ymateb y Llywodraeth i ganlyniad yr ymgynghoriad 2019: "Cynigion ar gyfer diwygio'r Cod Ymarfer i'r Cod i Ddiodefwyr Troseddau". Mae'n cynnwys:
 - cefndir yr ymgynghoriad;
 - crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad;
 - ymatebion i gwestiynau penodol ar ein cynigion; a
 - chasgliadau a'r camau nesaf.

Cefndir

2. Agorodd y papur ymgynghori 'Cynigion ar gyfer diwygio'r Cod Ymarfer i'r Cod i Ddiodefwyr Troseddau'¹ ar 17 Gorffennaf 2019. Roedd yn gwahodd sylwadau ar gyflenwi un o ymrwymadau allweddol y Strategaeth Ddiodefwyr traws-lywodraethol² a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018 sef, i ymgynghori ar God Ymarfer diwygiedig i Ddiodefwyr Troseddau (y Cod).
3. Nododd y Strategaeth Ddiodefwyr nifer o newidiadau penodol yr ydym yn bwriadu eu gwneud i'r Cod, ond wrth i'r gwaith ar yr adolygiad symud ymlaen, gwnaethom ychwanegu at y rhestr hon. Yr egwyddorion allweddol a oedd yn sail i'n dull oedd y dylai diodefwyr:
 - dderbyn y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, pan fydd eu hangen arnynt;
 - ni ddylent gael eu hail-drawmateiddio gan eu profiad o'r broses cyfiawnder troseddol; a
 - beth bynnag fo'r canlyniad, dylent fod yn fodlon â'r driniaeth a gawsant gan y system cyfiawnder troseddol.
4. Yn seiliedig ar yr hyn a ddywedodd diodefwyr a grwpiau diodefwyr wrthym, nodwyd nifer o themâu allweddol a oedd yn sail i anghenion diodefwyr, a oedd yn amlach na pheidio yn llifo drwy'r broses cyfiawnder troseddol o'r drosedd i ddedfrydu ac weithiau y tu hwnt. Ceisiodd ein cynigion fynd i'r afael â'r themâu canlynol gan ystyried yr egwyddorion a amlinellir uchod:
 - **Gwybodaeth a Chyfathrebu** – dywedodd diodefwyr wrthym fod gwybodaeth a chyfathrebu amserol a chywir yn allweddol i ddiwallu eu hanghenion.
 - **Llais i Ddiodefwyr** – mae diodefwyr eisiau cael eu clywed ac i'w barn a'u hanghenion gael eu cymryd o ddifrif.
 - **Cymorth** - dylai'r cymorth i ddiodefwyr fod bob amser o ansawdd gyson uchel ac yn hygyrch i bob un ohonynt.
 - **Cymorth Arbenigol** - cydnabod bod llawer o ddiodefwyr angen mynediad at gymorth arbenigol.
 - **Atebolrwydd** - dylai diodefwyr fod yn hyderus y byddant yn cael y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt ac y gwneir iawn am hyn os nad yw'n digwydd.
5. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 11 Medi 2019 ac mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion, gan gynnwys sut mae'r ymgynghori wedi dylanwadu ar y fersiwn ddiwygiedig ddrafft o'r Cod yn Atodiad A.
6. Ceir rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon.

¹ www.gov.uk/government/consultations/proposals-for-revising-the-code-of-practice-for-victims-of-crime

² www.gov.uk/government/publications/victims-strategy

Crynodeb o'r ymatebion

7. Derbyniwyd cyfanswm o 231 o ymatebion i'r ymgynghoriad oddi wrth amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion, gan gynnwys ymarferwyr cyfiawnder troseddol, heddluoedd, Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, sefydliadau gwirfoddol/ elusennau, academyddion ac aelodau o'r cyhoedd.
8. Mae'r tabl canlynol yn torri i lawr y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad i gategoriâu:

Categori	Nifer yr Ymatebwyr
Academyddion	4
Cymdeithasau	6
Ymarferwyr Cyfiawnder Troseddol	35
Adrannau / Asiantaethau Llywodraeth	11
Aelodau'r cyhoedd	63
Swyddfa'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu³	35
Heddluoedd ⁴	12
Mudiadau Gwirfoddol	64
Eraill	1

9. Rydym wedi dadansoddi'r ymatebion o ran barn a lefelau cefnogaeth i'n cynigion, yn ogystal â thystiolaeth o effaith.
10. Ni wnaeth pob un o'r ymatebwyr ateb pob cwestiwn a dewisodd rhai ymatebwyr gyflwyno eu hymateb ar ffurf llythyr mwy cyffredinol. Yn yr achosion hyn, pan ymddengys fod y sylwadau mewn ymateb i gwestiynau penodol, ymdrinniwyd â'r cyfraniadau hyn at ddibenion dadansoddi fel atebion i'r cwestiynau hynny.
11. Mynegodd rhai ymatebwyr sylwadau neu awgrymiadau nad oeddent yn ateb y cwestiynau, neu a oedd tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad. O ran yr awgrymiadau mwy sylweddol, roeddem yn eu croesawu ac rydym wedi eu hystyried yn drwyadl. Er na ellir eu harchwilio yn fanwl yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Cod diwygiedig drafft, byddant yn helpu i lywio ystyriaeth i'r dyfodol o sut i wella profiad diodefwyr troseddau.

³ Gan gynnwys Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

⁴ Gan gynnwys Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Coleg Plismona

Ymatebion i gwestiynau penodol ar ein cynigion

Y Camau Nesaf

Gofynnwyd:

C1: A oes unrhyw feysydd neu faterion penodol y credwch y dylem hefyd ganolbwyntio arnynt yn ein hail ymgynghoriad?

Allan o'r 231 o ymatebwyr, rhoddodd 191 (83%) fanylion am y meysydd/ materion penodol yr oeddent yn teimlo y dylid eu cynnwys yn yr ail ymgynghoriad; roedd 10 (4%) o'r farn bod yr ymgynghoriad wedi cynnwys pob un o'r meysydd neu nid oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau pellach ac nid atebodd 30 (13%) y cwestiwn.

Ymhlith y meysydd/ materion a awgrymodd yr ymatebwyr y dylid eu cynnwys yn ein hail ymgynghoriad roedd; Cyfiawnder Adferol; gwella cyfleusterau llys fel mynediad ar wahân i ystafelloedd aros ayb.; sicrhau bod asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cydymffurfio â'r Cod; darparu cymorth arbenigol a gwneud y system cyfiawnder yn fwy cydgyssylltiedig ac yn haws i'w llywio.

Rydym yn diolch i'r rhai a gymerodd yr amser i roi eu barn i ni ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr ail ymgynghoriad. Rydym wedi gwrandao ar yr adborth a gawsom, a lle bo'n briodol rydym wedi ymgorffori nifer o newidiadau yn y drafft Cod diwygiedig, er enghraifft, sicrhau bod gwybodaeth am Gyfiawnder Adferol (CA), gan gynnwys dyletswydd ar yr heddlu i esbonio sut i fanteisio ar wasanaethau CA, yn fwy hygyrch ac yn gliriach i ddiodeffwyr.

Mae nifer o'r awgrymiadau a ddaeth i law eisoes yn cael eu dilyn yn weithredol fel rhan o'n gwaith parhaus i wella'r system cyfiawnder trwy ein hymrwymadau blaenorol a wnaed yn y Strategaeth Dioddefwyr, megis gweithio ar draws y llywodraeth i ariannu gwell aliniad â'r gwasanaethau cymorth i ddiodeffwyr a gwneud yr amgylchedd llys yn fwy cyfeillgar i ddiodeffwyr.

Yn olaf, bydd ein cynigion i newid strwythur y Cod i gyfres o hawliau gwarantiedig yn paratoi'r ffordd ar gyfer Cyfraith Dioddefwyr sy'n gallu canolbwyntio ar warantu'r hawliau hyn a sicrhau bod diodeffwyr yn cael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ymdopi ac adfer. Fel yr ydym eisoes wedi ymrwmo i wneud, bydd ein hymgynghoriad ar y Gyfraith Dioddefwyr yn ddiweddarach eleni yn rhoi cyfle hefyd i ystyried sut orau y gall asiantaethau cyfiawnder troseddol gael eu dwyn i gyfrif o ran cydymffurfio â'r Cod ar p'un a yw diodeffwyr yn derbyn eu hawliau.

1. Gwybodaeth a Chyfathrebu - Hygyrchedd

Gofynnwyd:

C2: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gael canllawiau ar wahân ochr yn ochr â'r Cod sydd wedi'u hanelu at ddiodefwyr ac ymarferwyr?

Allan o'r 231 o ymatebwyr, cytunodd 190 (82%) â'n cynnig i gael canllawiau ar wahân ochr yn ochr â'r Cod sydd wedi'u hanelu at ddiodefwyr ac ymarferwyr; anghytunodd 10 (4%); gwnaeth 11 (5%) sylw, ond ni wnaethant ateb Ie neu Na, ac nid atebodd 20 (9%) y cwestiwn. Felly, o'r 200 o'r ymatebion Ie/Na i gwestiwn 2, roedd 95% yn cytuno â'r cynnig a 5% yn anghytuno ag ef.

Rhowch resymau dros eich ymateb:

O'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig i gael canllawiau ar wahân, credai nifer fawr y byddai dull o'r fath yn ei gwneud yn haws i ddiodefwyr fod yn ymwybodol o'u hawliau, cyn belled â bod y canllawiau'n cael eu hysgrifennu mewn iaith syml, hawdd ei deall.

Roedd y rhesymau dros anghytuno â'r cynnig yn cynnwys barn y byddai hyn yn arwain at wanhau hawliau diodefwyr, a ddim yn gweld problem gyda'r ffordd y mae'r Cod presennol wedi ei ddrafftio.

Rydym wedi ystyried yn ofalus yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, a nodwyd y gefnogaeth helaeth i gael canllawiau ar wahân i ddiodefwyr ac ymarferwyr.

Felly, rydym wedi strwythuro'r Cod diwygiedig drafft fel mai'r diodefwyr yw'r brif gynulleidfa. Rydym yn cynnig symleiddio'r strwythur presennol drwy uno pum pennod (Hawliau Estynedig, Diodefwyr sy'n Oedolion, Plant a Phobl Ifanc, Busnesau a Dyletswyddau ar Ddarparwyr Gwasanaeth eraill) i un Cod cryno â ffocws, gan amlygu'n glir lle mae hawliau penodol yn berthnasol i grwpiau unigol.

I fynd i'r afael â rhai o'r pryderon wrth ateb cwestiwn 3 ac yn unol â'n cynnig blaenorol, byddwn hefyd yn cyhoeddi dogfen ar wahân sy'n cynnwys gwybodaeth a chanllawiau manwl i ymarferwyr. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn glir ar hawliau, ac ar ba gam mae angen darparu'r hawliau hyn i ddiodefwyr.

Gofynnwyd:

C3: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i newid strwythur i nifer llai o hawliau trosfwaol?

Allan o'r 231 o ymatebwyr, cytunodd 173 (75%) â'n cynnig i newid y strwythur i nifer lai o hawliau; anghytunodd 10 (4%); gwnaeth 12 (5%) sylw, ond ni wnaethant ateb le neu Na i'r cwestiwn, ac nid atebodd 36 (16%) y cwestiwn. Felly, o'r 183 o ymatebion ie/na i gwestiwn 3, roedd 95% yn cytuno â'r cynnig a 5% yn anghytuno ag ef.

Rhowch resymau dros eich ymateb

Roedd nifer o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn credu ei fod yn beth da iawn gwella a symleiddio'r Cod i ddiodefwyr, gan nodi bod y Cod ar hyn o bryd yn 'llac' a 'thrwsgl' a bod angen ei symleiddio i wneud y broses gyfan yn haws i'w deall.

Dywedodd y rhai nad oeddent yn cytuno â'r cynnig na allent weld pam y byddai'r dull hwn yn angenrheidiol ac er eu bod yn cydnabod y manteision i ddiodefwyr, efallai na fyddant yn ddigon rhagnodol i ddarparwyr gwasanaethau.

Fel y cefnogodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad, rydym yn cynnig newid strwythur cymhleth y Cod presennol fel ei fod yn nodi'n glir 12 o hawliau trosfwaol y mae gan ddiodefwyr yr hawl i'w cael, ac ar ba bwynt yn y broses cyfiawnder y dylent eu cael. Mae'r dyletswyddau ar bob darparwr gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw amserlenni ar gyfer cyflenwi, wedi'u nodi'n glir o dan bob un o'r hawliau hyn ac fel y nodir yn ein hymateb i gwestiwn 2, byddwn yn cynhyrchu dogfen ganllawiau i ymarferwyr.

Gofynnwyd:

C4: Sut arall allem ni wella hygyrchedd y Cod?

Allan o'r 231 o ymatebwyr, nid oedd gan 39 (175) unrhyw awgrymiadau i'w gwneud neu ni wnaethant ateb y cwestiwn. Ymhlith yr awgrymiadau a gafwyd gan y rhai a ymatebodd, roedd: rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cod drwy'r cyfryngau cymdeithasol, cynhyrchu taflenni a sicrhau eu bod ar gael yn eang, megis mewn gorsafoedd heddlu, llyfrgelloedd ayb.

Rydym yn cydnabod ac yn cytuno gyda'r ymatebion a nododd fod codi ymwybyddiaeth yn rhan allweddol o ail-lansio'r Cod. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried nifer o opsiynau gan gynnwys gwneud gwelliannau i'n darpariaeth ddigidol, gwella ymwybyddiaeth gyhoeddus yn fwy eang a safonau cyhoeddus ymhlith asiantaethau cyfiawnder troseddol a sefydliadau gwirfoddol. Byddwn yn nodi rhagor o fanylion am ein cynlluniau yn yr ymateb i'r ymgynghoriad: 'Gwella'r Cod i Ddiodefwyr'.

Gwell ymgysylltiad

Gofynnwyd:

C5: Ydych chi'n cytuno bod angen penodol i gryfhau cyfathrebu ar bwynt cyhuddo?

Allan o'r 231 o ymatebwyr, cytunodd 176 (76%) bod angen arbennig i gryfhau cyfathrebu ar bwynt cyhuddo; anghytunodd 4 (2%); gwnaeth 22 (10%) sylw, ond ni wnaethant ateb le neu Na i'r cwestiwn, ac nid atebodd 29 (13%) y cwestiwn. Felly, o'r 180 o ymatebion ie/na i gwestiwn 5, roedd 98% yn cytuno â'r cynnig a 2% yn anghytuno ag ef.

Rhowch resymau dros eich ymateb

Cytunodd y rhan fwyaf o ymatebwyr fod angen arbennig i gryfhau cyfathrebu, fodd bynnag, awgrymodd nifer y dylai hyn fod o'r pwynt cyswllt cyntaf yn hytrach na phwynt cyhuddo. Roedd ymatebwyr hefyd yn cydnabod y manteision y gallai Pwynt Cyswllt Unigol (SPOC) eu cyflenwi i ddiodefwyr, megis lleihau'r nifer o weithiau y byddai rhaid iddynt adrodd eu profiad i'r gwahanol asiantaethau o fewn y system cyfiawnder troseddol. Nododd eraill y gallai SPOC o bosibl leihau'r baich ar yr heddlu ac y gallai nodi unrhyw anghenion cymorth ychwanegol sydd gan y diodefwyr.

Dywedodd y rhai a oedd yn anghytuno bod cyfathrebu eisoes yn ddigonol, ac na ddylai fod angen am y cwestiwn hwn oherwydd atebolrwydd.

Rydym wedi gwrando'n ofalus ar yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr wrthym. Dywedodd llawer bod angen i gyfathrebu gael ei gryfhau drwy gydol y broses. Rydym yn cytuno â hyn ac felly bwriedir ehangu ein dull er mwyn i gyfathrebu gael ei gryfhau o'r pwynt lle mae'r dioddefwr yn adrodd am y drosedd am y tro cyntaf i'r heddlu (neu, os yw'r drosedd yn cael ei hadrodd gan rywun arall, o'r adeg pan fydd yr heddlu'n cysylltu gyntaf â'r dioddefwr), yn hytrach nag ar bwynt cyhuddo, fel yr awgrymwyd yn yr ymgynghoriad blaenorol.

Rydym hefyd wedi diwygio'r Cod diwygiedig drafft i'w wneud yn glir i ddarparwyr gwasanaethau bod rhaid iddynt geisio lleihau nifer y gwahanol bobl y mae dioddefwyr yn cael cyswllt â nhw, ac y dylent gynnig SPOC ar gyfer gwybodaeth.

Mae ein cynigion hefyd yn cynnwys adolygu'r Cod i wneud amlder a'r dull o gyfathrebu yn bethau a gaiff eu harwain fwy gan y dioddefwr (Hawl 6), tra'n cydnabod y gall fod adegau pan na all darparwr gwasanaeth ddarparu diweddariadau rheolaidd. Lle mae hyn yn wir, mae'r Cod diwygiedig yn rhoi dyletswydd ar y darparwr gwasanaeth i egluro pam.

Yn yr ymgynghoriad cyntaf, cynigiwyd gwneud darpariaeth i'r dioddefwyr hynny sy'n gymwys ar gyfer hawliau estynedig i gael SPOC (gan adlewyrchu prosesau lleol), o'r pwynt cyhuddo hyd at ddiwedd yr achos.

Ers ymgynghoriad 2019, rydym wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ac er ein bod yn cydnabod bod llawer o Gomisynwyr yr Heddlu a Throseddu a'u heddluoedd cysylltiedig wedi symud tuag at system sy'n seiliedig ar SPOC, ni allwn fandadu'r strwythur hwn. Byddwn yn parhau i adolygu hyn gyda'r bwriad o wneud newidiadau i fersiynau o'r Cod yn y dyfodol.

Gofynnwyd:

C6: A ddylai dewisiadau'r dioddefwr sy'n ymwneud ag amlder a'r dull gorau o gysylltu drwy eu taith cyfiawnder troseddol gael eu cofnodi fel rhan o'r cyfathrebu cychwynnol?

Allan o'r 231 o ymatebwyr, cytunodd 183 (79%) bod dewisiadau'r dioddefwr sy'n ymwneud ag amlder a'r dull gorau o gysylltu yn cael eu cofnodi fel rhan o'r cyfathrebu cychwynnol; anghytunodd 9 (4%); gwnaeth 11 (5%) sylw, ond ni wnaethant ateb lle neu Na i'r cwestiwn, ac nid atebodd 28 (12%) y cwestiwn. Felly, o'r 192 o ymatebion ie/na i gwestiwn 6, roedd 95% yn cytuno â'r cynnig a 5% yn anghytuno ag ef.

Ac os felly, a ddylai'r dewisiadau hyn ffurfio rhan o'r broses atgyfeirio rhwng asiantaethau? Rhwch resymau dros eich ateb.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig, gan dynnu sylw at fanteision posibl i ddiodefwyr gael y cyfle i fynegi eu dewisiadau ar y cyfle cyntaf posibl. Nododd ymatebwyr bod angen i'r diodefwr allu diweddarau ei ddewis wrth symud drwy'r system cyfiawnder ac y dylai'r broses fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i'r darparwr gwasanaeth fodloni'r cais.

Roedd y rhai a oedd yn anghytuno yn credu bod cyfathrebu presennol yn ddigonol a bod hon yn wybodaeth breifat na ddylid ei rhannu.

Fel y soniwyd yn ein hymateb i gwestiwn 5, rydym wedi diwygio'r Cod diwygiedig drafft i wneud amllder a'r dull o gyfathrebu yn bethau a gaiff eu harwain fwy gan y diodefwr (Hawl 6). Mae hyn yn cynnwys y cyfle i ddiodefwyr wneud newidiadau i'r dewisiadau hyn yn ystod y broses system cyfiawnder.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol a darparwyr gwasanaethau i sicrhau bod dewisiadau cyfathrebu yn cael eu dal yn asesiad anghenion y diodefwr. Bydd hyn yn sicrhau y gellir rhannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau, gan ddileu'r angen i ddiodefwyr ddiweddarau eu dewisiadau yn barhaus gyda gwahanol ddarparwyr gwasanaeth.

2. Llais Dioddefwyr

Gofynnwyd:

C7: Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i roi mwy o ddisgresiwn i asiantaethau o ran pryd y cynigir y Datganiad Personol Dioddefwr (DPD)?

Allan o'r 231 o ymatebwyr, cytunodd 173 (75%) â'r cynnig i roi mwy o ddisgresiwn o ran pryd y cynigir y Datganiad Personol Dioddefwr gan asiantaethau; anghytunodd 13 (6%); gwnaeth 17 (7%) sylw, ond ni wnaethant ateb le neu Na i'r cwestiwn, ac nid atebodd 28 (12%) y cwestiwn. Felly, o'r 186 o ymatebion ie/na i gwestiwn 7, roedd 93% yn cytuno â'r cynnig a 6% yn anghytuno ag ef

Rhowch resymau dros eich ymateb

O'r rheiny a oedd yn cytuno â'r cynnig i roi mwy o ddisgresiwn i asiantaethau o ran pryd y cynigir y Datganiad Personol Dioddefwr, roedd cydnabyddiaeth bod unigolion yn delio'n wahanol â phrofiadau ac efallai nad oedd cynnig DPD ar ddechrau'r broses yr amser gorau i rai dioddefwyr. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r syniad bod y broses yn cael ei llywio gan ddiodefwyr, a hefyd amlygwyd yr angen am hyfforddiant penodol i'r heddlu.

Roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'n cynigion o'r farn na ddylid cyflwyno'r Datganiad Personol Dioddefwr hyd nes bo'r diffynnydd yn cael ei gyhuddo, gan ei fod yn achosi straen diangen, a mynegwyd pryderon y gallai unrhyw hyblygrwydd yn y broses olygu na allai diodefwr gael cynnig cyfle i wneud Datganiad Personol Dioddefwr o gwbl.

Mae'r wybodaeth yn y Cod diwygiedig drafft yn ymwneud â gwneud Datganiad Personol Dioddefwr (Hawl 7) wedi ei ddiwygio i adlewyrchu'r cynigion a wnaed gennym yn ein hymgynghoriad cyntaf. Gan ystyried y nifer o safbwyntiau a fynegwyd, rydym hefyd wedi ychwanegu gwybodaeth ychwanegol i helpu diodefwyr i ddeall y broses yn well, a sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r goblygiadau ehangach o wneud Datganiad Personol Dioddefwr. Er enghraifft, os yw'r achos yn cyrraedd llys, gall y Datganiad Personol Dioddefwr gael ei gynnwys fel tystiolaeth, a bydd y sawl dan amheuaeth fel arfer yn gallu ei weld.

Gofynnwyd:

C8: Ydych chi'n cytuno y dylai diodefwyr dderbyn copi o'u Datganiad Personol Dioddefwr (DPD)?

Allan o'r 231 o ymatebwyr, cytunodd 194 (84%) y dylai diodefwyr dderbyn copi o'u DPD; anghytunodd 5 (2%); gwnaeth 4 (2%) sylw, ond ni wnaethant ateb le neu Na i'r cwestiwn, ac nid atebodd 28 (12%) y cwestiwn. Felly, o'r 199 o ymatebion ie/na i gwestiwn 8, roedd 98% yn cytuno â'r cynnig a 2% yn anghytuno ag ef.

Rhowch resymau dros eich ateb.

Roedd ymatebwyr yn glir o blaid y cynnig i roi copi o'u DPD i ddiodefwyr. Mynegwyd angen i gael y cyfle i fyfyrio ar yr hyn a ddywedasant yn flaenorol am eu profiad, ac iddynt fod yn ymwybodol o effaith lawn y drosedd, a sut y gallai hon fod wedi newid. Byddai darparu copi i ddiodefwyr hefyd yn rhoi cyfle i ailystyried y cynnwys ac o bosibl adnewyddu eu cof cyn mynd i'r llys. Ni wnaeth y rhai a oedd yn anghytuno â'n cynigion roi unrhyw resymau dros wneud hynny.

Mae'r wybodaeth sy'n ymwneud â gwneud Datganiad Personol Dioddefwr wedi'i diwygio i ganiatáu i ddiodefwyr ofyn am gopi a hefyd i egluro y gallant wneud un arall petaent yn cofio rhywbeth pwysig, neu os oedd effaith y drosedd arnynt yn newid.

Mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr am ddiodefwyr o bosibl yn cael copi o'u datganiad tyst os yw eu Datganiad Personol Dioddefwr yn ffurfio rhan o'r datganiad hwnnw. Rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy wneud yr hawl i ofyn am gopi o'r DPD yn berthnasol dim ond pan y cafodd ei gwblhau ar dempled DPD sy'n sefyll ar ei ben ei hun, gweler ein hymateb i gwestiwn 9, a bydd ein canllawiau 'ymarferwyr', gweler ein hymateb i gwestiwn 2, yn cynnwys gwybodaeth i annog yr heddlu i ddefnyddio templed wrth gymryd y DPD.

Gofynnwyd:

C9: A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu gwneud am y newidiadau i'r broses Datganiad Personol y Dioddefwr (DPD)?

Allan o'r 231 o ymatebwyr, gwnaeth 154 (67%) sylwadau ychwanegol ar newidiadau i'r broses DPD ond nid oedd gan 77 (33%) unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud, neu ni wnaethant ateb y cwestiwn.

Ymhlith y sylwadau ac awgrymiadau ar newidiadau roedd: sicrhau bod dioddefwyr yn llawn ddeall y broses a goblygiadau llawn gwneud Datganiad Personol Dioddefwr; yr angen am dempled generig y gellid ei ddefnyddio gan bawb; caniatáu i eraill gymryd y Datganiad Personol Dioddefwr yn hytrach na'r heddlu; a mwy o hyfforddiant a gwell gwybodaeth am y broses i ymarferwyr.

Yn ogystal â dyletswydd ar yr heddlu i roi gwybodaeth am y broses i ddioddefwyr i'w helpu i benderfynu a ydynt yn dymuno gwneud Datganiad Personol Dioddefwr neu beidio, rydym hefyd wedi ymrwymo i weithio'n agos gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol a rhanddeiliaid dioddefwyr i ddatblygu templed mwy safonol i'w ddefnyddio yn ystod y broses DPD.

Eisoes mae prosesau presennol yn caniatáu i gefnogwyr dioddefwyr eraill gynorthwyo dioddefwyr i gofnodi eu Datganiad Personol Dioddefwr a byddwn yn gwneud yr hawl hon yn gliriach yn y canllawiau DPD asiantaethau ar y cyd,⁵ a fydd yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu hyn.

⁵ <https://www.gov.uk/government/publications/victim-personal-statement>

Troseddwyr ag Anhwylder Meddwl

Gofynnwyd:

C10: Pa asiantaeth sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi diodefwyr gleifion dan gyfyngiadau?

Allan o'r 231 o ymatebwyr, gwnaeth 117 (51%) awgrym ynghylch pwy yn eu barn nhw oedd yn y sefyllfa orau i gefnogi diodefwyr gleifion dan gyfyngiadau, ni wnaeth 114 (49%) unrhyw awgrym, ni wnaethant ateb y cwestiwn neu nid oeddent yn teimlo y gallent wneud sylwadau.

Asiantaeth	Nifer yr ymatebwyr	Canran yr ymatebwyr
Swyddog Cyswllt Dioddefwyr/ Prawf	52	44%
Gwasanaeth Iechyd Gwladol	27	23%
Pwynt Cyswllt Unigol Amhenodol	15	13%
Heddlu	4	3%
Cymorth i Ddiodefwyr	4	3%
Arall	15	13%

Rydym wedi ystyried yn ofalus yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ac yn dilyn trafodaethau gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol, rydym yn cynnig mai Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (VLO) sydd yn y lle gorau i gefnogi diodefwyr cleifion dan gyfyngiadau o dan y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr (VCS).

Mae Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol eisoes wedi eu neilltuo i ddiodefwyr cleifion dan gyfyngiadau ac felly bydd ymestyn eu rôl i gynnwys cymorth i ddiodefwyr cleifion dan gyfyngiadau yn dod â mwy o gydraddoldeb mewn hawliau i'r diodefwyr hyn, gan sicrhau cysondeb o ran y llif gwybodaeth a'r ffordd y caiff ei ddarparu.

3. Cymorth

Gofynnwyd:

C11: Ydych chi'n cytuno y dylai'r hawl i gael mynediad at gymorth ymarferol ac emosiynol i ddiodefwyr gael ei gwneud yn fwy eglur yn y Cod diwygiedig, i'r diodefwyr hynny:

a) nad ydynt yn adrodd am ddigwyddiadau wrth yr heddlu?

b) sy'n dewis tynnu'n ôl ar ôl rhoi gwybod am ddigwyddiad i'r heddlu?

c) ar ddiwedd eu hachos?

Allan o'r 231 o ymatebwyr, cytunodd 184 (80%) y dylai'r hawl i gael mynediad at gymorth ymarferol ac emosiynol i ddiodefwyr gael ei gwneud yn fwy eglur yn y Cod diwygiedig; anghytunodd 2 (1%); gwnaeth 20 (9%) sylw, ond ni wnaethant gytuno nac anghytuno â'r cwestiwn, ac nid atebodd 25 (11%) y cwestiwn. Felly, o'r 186 o ymatebion cytuno/anghytuno i gwestiwn 11, roedd 99% yn cytuno â'r cynnig ac 1% yn anghytuno ag ef.

Rhowch resymau dros eich ateb.

Er bod nifer o ymatebion yn cydnabod yr anawsterau o ran ymarferoldeb darparu cymorth i'r rhai nad oeddent wedi adrodd am ddigwyddiadau wrth yr heddlu, roedd sylwadau yn gyffredinol yn canolbwyntio ar yr angen am well arwyddion at y cymorth sydd ar gael, a bod angen gwella mynediad at y cymorth hwn. Hefyd nodwyd, trwy wneud cymorth yn fwy hygyrch yn y ffordd hon, gallai annog mwy o ddiodefwyr i fynd at yr heddlu a gallai fod yn ffactor sylweddol o ran atal ail-erledigaeth.

O ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi cynnwys gwybodaeth yn y Cod diwygiedig drafft am y gallu i gael mynediad at gymorth:

- heb yr angen i adrodd am ddigwyddiadau wrth yr heddlu;
- ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad ac erlyniad;
- os yw'r achos yn cael ei atal; neu
- ar ddiwedd yr achos (yn Hawl 9).

Yn unol â'n hymateb i gwestiwn 4, rydym yn ymrwymo i godi ymwybyddiaeth o hawliau pwysig hyn fel rhan o'r ail-lansio'r Cod.

4. Cymorth Arbenigol

Gofynnwyd:

C12: Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig i gategoriâu cymhwyster ar gyfer mynediad at gymorth arbenigol?

Allan o'r 231 o ymatebwyr, cytunodd 150 (65%) â'r newidiadau arfaethedig i gategoriâu cymhwyster ar gyfer mynediad at gymorth arbenigol; anghytunodd 7 (3%); gwnaeth 47 (20%) sylw, ond ni wnaethant ateb le neu Na, ac nid atebodd 27 (12%) y cwestiwn. Felly, o'r 157 o'r ymatebion le/Na i gwestiwn 12, roedd 97% yn cytuno â'r cynnig a 3% yn anghytuno ag ef.

Rhowch resymau dros eich ateb.

Amlygodd nifer o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i gategoriâu cymhwyster ar gyfer mynediad at gymorth arbenigol yr angen am i bawb fod yn gymwys i gael cymorth os oedd angen, a nodwyd pryderon ynghylch pwy fyddai'n penderfynu pa diodefwyr oedd â'r 'angen mwyaf', yn ogystal â dymuno gweld penderfyniadau ynghylch sicrhau ansawdd yn cael eu gwneud yn y broses. Teimlai'r rhai a oedd yn anghytuno gyda'r cynnig bod y diffiniadau o'r categorïau cymhwyster yn amwys ac nad oedd yn rhoi digon o fanylion i lywio penderfyniadau.

Rydym yn glir y gallai diodefwyr a ystyrir yn fregus neu dan fygythiad (Hawl 4), sydd wedi cael eu targedu dro ar ôl tro, neu wedi dioddef o'r drosedd fwyaf ddifrifol (gan gynnwys perthynas agos yn dioddef profedigaeth) fod angen mwy o gymorth. Gall cymorth 'estynedig' o'r fath fod ar ffurf cael cynnig atgyfeiriad at wasanaeth cymorth arbenigol, cael cyswllt â darparwyr gwasanaethau ynghynt ar ôl penderfyniadau allweddol, yn ogystal â chael mynediad at fesurau arbennig (Hawl 4).

Ar ôl ystyried a derbyn y pryderon a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn cydnabod bod symud i gategori unigol o 'ddiodefwyr sydd â'r anghenion mwyaf', sydd â hawl i gymorth arbenigol mynediad, yn creu risg y bydd darparwyr gwasanaethau yn defnyddio'r disgrisiwn ehangach hwn i eithrio diodefwyr sydd ar hyn o bryd yn gymwys o dan y categorïau presennol.

Rydym felly wedi penderfynu yn y Cod diwygiedig drafft i gadw'r categorïau cymhwyster presennol ar gyfer mynediad at gymorth arbenigol, tra'n ei gwneud yn gliriach bod darparwyr gwasanaethau yn cael y disgrisiwn i gynnig cymorth arbenigol i ddiodefwyr sy'n disgyn y tu allan i gwmpas y categorïau presennol.

Gofynnwyd:

C13: A oes mathau eraill o gymorth neu wybodaeth a fyddai o fudd i'r diodefwyr hynny sy'n cael cynnig cymorth arbenigol?

Allan o'r 231 o ymatebwyr, awgrymodd 158 (68%) fathau eraill o gymorth neu wybodaeth a fyddai o fudd i'r diodefwyr hynny sy'n cael cynnig cymorth arbenigol; atebodd 5 (2%) 'na'; ni wnaeth 69 (30%) ateb y cwestiwn.

Ymhlith y mathau eraill o gymorth a awgrymwyd roedd; cwnsela, cymorth cyfreithiol, mynediad at Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol, cymorth gan yr Awdurdod lawndal Anafiadau Troseddol, gwybodaeth gliriach am y cymorth sydd ar gael a chyfiawnder adferol.

Rydym yn diolch i ymatebwyr am eu hawgrymiadau. Mae'r meysydd allweddol a nodwyd yn yr ymatebion yn cael eu cwmpasu yn y Cod presennol ac fel y cyfryw, maent wedi cael eu hadlewyrchu yn y fersiwn ddiwygiedig ddrafft. Roedd yr ymatebion yn cefnogi ein canfyddiadau, o ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ac o'r hyn a ddywedodd diodefwyr wrthym, fod y fersiwn gyfredol o'r Cod yn ddryslyd ac yn anodd i'w llywio.

O dderbyn yr adborth hwn, rydym wedi tynnu allan wybodaeth yn y Cod diwygiedig drafft i'w gwneud yn gliriach i ddiodefwyr lle gallant gael mynediad at gymorth ychwanegol, gan gynnwys tynnu sylw at gymorth gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, ar gyfer teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth oherwydd llofruddiaeth neu ddynladdiad dramor; y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, i gael mynediad at gymorth meddygol a Chymdeithas Safonau Annibynnol y Wasg, i gael cyngor os yw'r cyfryngau yn cysyllu â chi.

Gofynnwyd:

C14: Pa newidiadau a ddylid eu gwneud i'r broses asesu anghenion presennol?

Allan o'r 231 o ymatebwyr, awgrymodd 155 (67%) newidiadau yr hoffent eu gweld yn cael eu gwneud i'r broses asesu anghenion presennol, roedd 76 (33%) yn ansicr pa newidiadau y dylid eu gwneud, ni wnaethant unrhyw sylw neu nid atebwyd y cwestiwn.

Ymhlith y newidiadau i'r broses asesu anghenion presennol a awgrymwyd gan ymatebwyr roedd; cymorth ar gyfer yr asesiad i'w rannu; y dylid cael gwybodaeth gan ddiodefwyr drwy sgwrs, rhoi cyfle iddynt esbonio sut maent yn teimlo, yn hytrach na chael eu hasesu; creu asesiad unffurf; bod yr asesiad yn dod yn ddogfen 'fyw' sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael ei hysbysu gan drawma. Hefyd, cefnogwyd cynyddu gwybodaeth darparwyr gwasanaethau am fesurau arbennig⁶.

Dan y Cod presennol mae gan ddiodefwyr hawl i gael asesiad anghenion i helpu iddynt weithio allan pa gefnogaeth y maent ei angen. Rydym wedi gwrandao ar y farn a fynegwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedi gwneud y wybodaeth yn ymwneud â'r asesiad anghenion a gynhelir gan yr heddlu ac, os yw'n ofynnol i'r diodefwyr i roi tystiolaeth, yr Uned Gofal Tystion, yn gliriach yn y Cod diwygiedig drafft (Hawl 4).

Fel y nodir yn yr ymgynghoriad cyntaf ac fel gyda'n hymateb i gwestiwn 2, yn ogystal â gwneud y Cod yn gliriach, rydym yn bwriadu rhoi canllawiau i ymarferwyr. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau ar yr angen i gynnig asesiad anghenion i ddiodefwyr ar gamau allweddol yn y broses cyfiawnder troseddol. Bydd y canllawiau yn amlygu pwysigrwydd adnabyddiaeth gynnar o anghenion arbenigol, a sicrhau bod prosesau ar waith i ganiatáu i'r wybodaeth hon gael ei throsglwyddo rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol.

⁶ Mae amrywiaeth o fesurau arbennig ar gael ar gyfer diodefwyr a thystion sy'n agored i niwed ac wedi eu bygwth mewn achosion cyfiawnder troseddol, megis y defnydd o sgriniau yn y llys, tystiolaeth wedi ei recordio ar fideo a defnydd o Gyfryngwyr Cofrestredig, sy'n arbenigwyr cyfathrebu.

5. Atebolrwydd

Gofynnwyd:

C15: Ydych chi'n cytuno y dylai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (CHTh'wyr) weithio gyda'u partneriaid cyfiawnder troseddol lleol i addasu'r canllawiau diodefwyr i esbonio'r cynnig lleol i ddiodefwyr?

Allan o'r 231 o ymatebwyr, cytunodd 150 (65%) y dylai'r CHTh'wyr weithio gyda'u partneriaid cyfiawnder troseddol lleol i addasu'r canllawiau diodefwyr i esbonio'r cynnig lleol i ddiodefwyr; anghtunodd 10 (4%); gwnaeth 38 (17%) sylwadau ond ni wnaethant ateb le neu Na i'r cwestiwn ac nid atebodd 33 (14%) y cwestiwn. Felly, o'r 160 o'r ymatebion le/Na i gwestiwn 15, roedd 94% yn cytuno â'r cynnig a 6% yn anghytuno ag ef.

Rhowch resymau dros eich ateb.

Credai nifer o ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylai Comisiynwyr weithio gyda'u partneriaid cyfiawnder troseddol lleol i addasu canllawiau diodefwyr i esbonio'r cynnig lleol i ddiodefwyr, y byddai dull o'r fath yn arwain at waith mwy cydgyssylltiedig. Awgrymwyd hefyd y gallai hyn fod o fudd i wasanaethau lleol a sicrhau eu bod yn cael eu teilwra yn well i anghenion lleol, yn ogystal â bod o fudd i ddiodefwyr trwy well cydymffurfiaeth gan ddarparwyr gwasanaeth wrth ddarparu'r hawliau o fewn y Cod a sicrhau mwy o atebolrwydd. Credai'r rhai a oedd yn anghytuno gyda'r cynnig y dylai llywodraeth ganolog gadw goruchwyliaeth.

Rydym yn credu bod y CHTh'wyr yn y sefyllfa orau i deilwra'r gwasanaethau a gynigir i ddiodefwyr er mwyn diwallu anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Byddwn yn parhau i weithio'n agos ac yn ymgysylltu â Chymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r CHTh'wyr eu hunain i helpu sicrhau bod eu cynnig i ddiodefwyr yn glir a bod gwasanaethau yn diwallu anghenion.

Gan symud ymlaen, rydym wedi ymrwymo i ystyried y mater o gydymffurfiaeth gan ddarparwyr gwasanaeth gyda'r hawliau a nodir yn y Cod diwygiedig, fel rhan o'n gwaith ar gyflwyno Cyfraith Dioddefwyr.

Casgliadau a'r camau nesaf

Rydym yn ddiolchgar am yr ystod o ymatebion a gawsom i'n hymgyngoriad cyntaf, sydd wedi ein helpu i baratoi'r fersiwn ddiwygiedig ddrafft o'r Cod i Ddiodefwyr.

Bydd y fersiwn ddiwygiedig o'r Cod yn cael ei gosod gerbron y Senedd yn ddiweddarach eleni a bydd yn sicrhau na fydd profiad diodefwyr yn y system cyfiawnder - beth bynnag yw eu llwybr penodol a chanlyniad terfynol - yn golygu eu bod yn ddiodefwyr y broses, yn ogystal â'r drosedd.

Byddwn yn gweithio'n agos â'r asiantaethau cyfiawnder troseddol a enwir eisoes yn y Cod a darparwyr gwasanaethau eraill i lunio canllawiau ymarferwyr, fel y nodir yn ein hymateb i gwestiwn 2. Bydd y canllawiau hyn yn nodi'n glir sut y bydd eu dyletswyddau yn cael eu cyflawni yn ymarferol, ac yn eu cefnogi i gyfathrebu hyn i'w staff, i ddiodefwyr ac i aelodau o'r cyhoedd.

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau nad oedd yn berthnasol i gwmpas yr ymgynghoriad ynghylch sut y gallai'r system cyfiawnder troseddol gael ei gwella. Rydym yn croesawu'r sylwadau hyn, a byddwn yn edrych ar sut y gallwn archwilio'r rhain mewn gwaith yn y dyfodol.

Rhestr o ymatebwyr

Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu
Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Oroeswyr sy'n Oedolion o Gam-drin Rhywiol mewn Plentyndod
ASB Help
Cymdeithas Siopau Cyfleus
Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Personol
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Avon a Gwlad yr Haf
Barnardos
Cymorth i Fenywod Birmingham a Solihull
Tîm Troseddau Ieuencid Bradford
Consortiwm Manwerthu Prydain
Grŵp Rhwydweithio Dioddefwyr Cymdeithas Brydeinig Troseddeg
Heddlu Trafnidiaeth Prydain
Catch22
Change, Grow, Live (CGL)
Gwasanaeth Tystion Cyngor ar Bopeth
Clean Slate
Coleg Plismona
Heddlu Cleveland - Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed
Gwasanaeth Erlyn y Goron
Swyddfa Apeliadau Troseddol (GLITEM)
Heddlu Dyfed Powys, Heddlu Gwent, Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys
Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol Dwyrain Canolbarth Lloegr
Gwasanaeth Troseddau Ieuencid East Riding Swydd Efrog
Tîm Troseddau Ieuencid Dwyrain Sussex
Comisiynydd Heddlu Troseddu a Thân Essex
Galop
Heddlu Swydd Gaerloyw a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Swydd Gaerloyw
Heddlu Manceinion Fwyaf
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent

Tîm Troseddau Ieuencid Hampshire
Canolfan Gwirfoddoli Havering
Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Humberside
Hundred Families
IDAS
Inclusion London
KSA Training and Consultancy
Prifysgol Caerhirfryn
Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Leeds
Heddlu Swydd Lincoln
Ymgyrch Beicio Llundain
Cymdeithas yr Ynadon
Make Amends - Gwasanaeth Cyfiawnder Adferol
Murdered Abroad
Rhwydwaith Menywod Moslemaidd y DU
Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru
Llwybrau Newydd
Tîm Cyfiawnder Ieuencid Casnewydd
Comisiynydd Heddlu Troseddu a Thân Swydd Northampton
Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Swydd Northampton
Northumbria Community Rehabilitation Company (CRC)
Nxt Steps 4 Communities LTD
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Swydd Bedford
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Swydd Gaergrawnt
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Swydd Gaer
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Cleveland
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Swydd Derby
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Dyfnaint a Chernyw
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Dorset
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Hampshire
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Swydd Hertford
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Swydd Gaerlŷr
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Swydd Lincoln

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Glannau Mersi
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Norfolk
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Northumbria
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Swydd Nottingham
Swyddfa Comisiynydd Heddlu Troseddu a Tân ar gyfer Gogledd Swydd Efrog
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Swydd Stafford
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Suffolk
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Surrey
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Swydd Warwick
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Wiltshire a Swindon
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Gorllewin Mercia
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Gorllewin Canolbarth Lloegr
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer De Cymru/ Heddlu De Cymru
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Gorllewin Swydd Efrog
Offside Trust
Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai
Prospects - Tîm Cefnogi Ieuencid Swydd Gaerloyw
Argyfwng Trais Cymru a Lloegr
Cyngor Cyfiawnder Adferol
Cyfiawnder Adferol i bawb
Restorative Solutions CIC
Revolving Doors
Hawliau Menywod
RoadPeace
RSVP (Prosiect Treisio a Thrais Rhywiol)
SafeLives
Self
Swyddfa Twyll Difrifol
Spring Lodge SARC
Stay Safe East
Support After Rape and Sexual Violence Leeds
Supporting Justice CIC
Survivor UK
Survivors Manchester
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Sussex
Suzy Lamplugh Trust

The Bell Foundation
Y Gymdeithas Manwerthu Elusennol
Y Gynghrair Cyfiawnder Troseddol (CJA)
Y Comisiynydd Gwybodaeth
The Josh Hanson Charitable Trust
Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd ('ORR')
The Survivors Trust
Prifysgol Essex
Undeb y Gweithwyr Siopau, Dosbarthu a Gwaith Perthynol
Cymorth i Ddiodefwyr
Comisiynydd Dioddefwyr i Gymru a Lloegr
Comisiynydd Dioddefwyr i Lundain
Llywodraeth Cymru
Cymorth i Fenywod Cymru
Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr
Grŵp Ymgynghorol Annibynnol Heddlu Gorllewin Swydd Efrog
Why me?
Tîm Troseddau Ieuencid a Gwasanaeth Cyfiawnder Adferol Wiltshire
Cymorth i Fenywod
WomenCentre Ltd
YES Matters UK
Gwasanaeth Troseddu Ieuencid Swydd Bedford
Gwasanaeth Troseddu Ieuencid Derby
Tîm Troseddau Ieuencid Cymru
Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid
Tîm Troseddau Ieuencid Cyngor Wakefield

CCS0220197850

978-1-5286-1785-7